




SENEDD!



Adroddiad Swyddogion

Senedd

4/11/2019



Crynodeb gan y Llywydd:

Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn yn yr Undeb. Ym mis Gorffennaf dechreuodd tîm newydd o Swyddogion Sabothol; aethom drwy wythnosau o hyfforddiant, buom yng nghynhadledd Arwain a Newid UCM yn ogystal â chynhadledd Talwrn UCM Cymru. Mae'r tîm swyddogion wedi mynd trwy broses o ymgyfarwyddo â'u rolau ac mae'r gwaith bellach wedi dechrau ar nifer o bolisiau. Enillodd yr Undeb wobwr Tîm Swyddogion y Flwyddyn 2019 gan UCM Cymru; nod tîm swyddogion eleni yw ennill y wobwr hon eto ar gyfer 2020.

Hyd yn hyn yn fy rôl, rwyf wedi dechrau gweithio ar nifer o bolisiau sydd eisoes yn weithredol yn yr Undeb. Mae'r polisi cyntaf rwyf wedi cymryd drosodd ers llynedd yn ymwneud â WiFi ar y campws. Mae'r polisi'n nodi y byddwn yn lloio'r Brifysgol ac unrhyw barti perthnasol arall i ddod â chysylltedd WiFi o fewn cyrraedd yr holl gampws a dod â chyflymder gigabit i'r campws. Yna mae dau bolisi yn ymwneud â'r amgylchedd a basiwyd yn Senedd y llynedd. Mae un yn nodi y dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth annog Prifysgol Aberystwyth i ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil. Mae'r ail yn egluro y dylai Undeb y Myfyrwyr hefyd ddefnyddio ynni adnewyddadwy. Rwyf hefyd yn gweithio ar bolisi a fydd yn golygu bod Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi Ymgyrch Dim Slaf dai *People a Planet*. Mae hynny'n cynnwys annog y Brifysgol i ymaelodi ag *Electronics Watch* cyn diwedd y flwyddyn academaidd hon.

Yn ystod cyfnod y glas, cynhaliwyd gweithdy yn yr Undeb gyda *People and Planet* am eu hymgyrch, a chafodd hwn groeso mawr. Fe wnes i hefyd drefnu a chynnal digwyddiad cerddoriaeth fyw ar gyfer glasfyfyrwyr; daeth nifer dda iddo ac roedd pobl yn mwynhau eu hunain yn fawr, felly roedd yn wych gallu cynnal y digwyddiad. Rwyf wedi bod yn siarad â myfyrwyr rhyngwladol, ôl-raddedigion, cyfadrannau ac amryw o adrannau yn ystod cyfnod y glas i gyflwyno fy hun, yr undeb ac i drafod y system gynrychiolwyr. Gweithiais yn y parti 'clo ac allwedd' oedd yn dipyn o lwyddiant, lle bues i'n dosbarthu gwobrau i fyfyrwyr.

Datblygiad diweddar y byddaf yn edrych arno yn ystod yr wythnosau nesaf yw'r sefyllfa bresennol gyda *Spartacus*. Mae nifer fawr o fyfyrwyr ar gyfryngau cymdeithasol, drwy aberfess a grwpiau trafod eraill, wedi codi pryderon am yr amodau gwaith yn *Spartacus*, Daeth nifer o adroddiadau am weithwyr ddim yn cael eu talu, pobl yn gweiddi arnynt yn rheolaidd, cael eu gorfodi i weithio oriau hir, gwneud gwaith ailadroddus, diflas a mwy. Mae'n anodd gwybod yn sicr a yw'r achosion hyn yn rhai go iawn, ac felly rydym ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth ac yn dod o hyd i'r myfyrwyr a wnaeth yr honiadau hyn fel y gallwn ymchwilio i'r cyhuddiadau ac o bosibl ddod â *Spartacus* i mewn ar gyfer cyfarfod i drafod hyn.



Cyflogaeth a Recriwtio yn Aberystwyth.

O ran recriwtio yn *Spartacus*, daeth nifer fawr o bobl atom gan ddweud yr un peth wrth ddisgrifio'r broses recriwtio yn *Spartacus*. Yn ôl y myfyrwyr hyn, roedd y broses recriwtio yn cynnwys "cyfnod prawf" lle byddech chi'n gweithio yn y rôl roeddech chi'n cyfweld ar ei chyfer ac, yn dibynnu ar eich perfformiad, byddech chi naill ai'n cael cynnig y swydd ar ôl y shifft brawf neu byddech chi'n cael eich anfon adref. Y peth sy'n peri pryder yw nad oedd y "cyfnod prawf" hwn yn para am ddim ond awr neu ddwy, ond yn hytrach yn dros sawl shifft dros sawl diwrnod, gyda grwpiau i gyd yn gweithio i gystadlu am y swydd. Dywedir bod y "cyfnod prawf" hwn yn tueddu i bara am wythnos. Y broblem yw, ar ddiwedd y cyfnod prawf, na thalwyd neb am eu gwaith. Mae hyn yn peri pryder oherwydd fel arfer byddech chi'n disgwyl i ymgeiswyr gael eu talu am eu llafur p'un a ydych chi'n gweithio fel rhan o gyfnod prawf ai peidio. Y naill ffordd neu'r llall, mae hyn wedi ennyn pryder mawr ymhlith corff y myfyrwyr ac mae pobl wedi bod yn trafod boicotio *Spartacus*, a gorfodi'r brifysgol i'w gollwng fel cyflenwr. Mae llawer o sylwadau negyddol wedi cael eu gwneud am *Spartacus* eisoes, sy'n niweidio enw da'r siop. Fe ofynon ni ein Hymgynghorwyr AD am gyngor ar yr honiadau a wnaed gan fyfyrwyr, a daethant yn ôl atom gyda rhywfaint o wybodaeth i ddarparu cyd-destun ar beth yw'r ddeddfwriaeth sy'n perthyn i recriwtio a shifftiau di-dâl.

Yn ôl y Gwasanaeth Cyngori a Chymodi (ACAS) nid yw'r arfer o fynnu bod ymgeiswyr yn gweithio shifft brawf ddi-dâl yn anghyfreithlon, cyn belled â bod y shifft ddi-dâl yn rhan o "broses recriwtio wirioneddol" a chyn belled nad yw'r shifft yn para am fwy nag ychydig oriau. Dylai fod yn bosibl ffurfio barn ynghylch p'un a yw gweithiwr newydd yn addas i'ch busnes ar ôl prawf byr o awr neu ddwy.

Mae ACAS yn cyngori, ar ôl hyn, os gofynnir i ymgeisydd weithio shifft lawn neu hyd yn oed sawl shifft lawn, y dylid talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (ICC) iddynt am yr oriau a weithiwyd. Ar ôl ychydig oriau, gellir dadlau bod y berthynas yn un gyflogaeth ac ar yr adeg honno mae'n fwy diogel talu'r ICC. Mae hyn yn awgrymu bod yr hyn a ddigwyddodd yn *Spartacus* yn arfer gwael; dylai'r myfyrwyr hynny y gofynnwyd iddynt weithio shifftiau llawn, neu hyd yn oed sawl shifft, fod wedi cael eu talu. Mae achos cyfreithlon gan bawb na chafodd eu talu, ynghyd â'r rheiny na chafodd gynnig swydd ar ddiwedd y broses.

Yn ddiweddar, mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer cyflogwyr ar weithio allan beth yw'r ICC, sy'n cynnwys arweiniad ar shifftiau prawf di-dâl. Mae'r canllawiau'n ei gwneud hi'n glir y bydd Cyllid a Thollau EM yn asesu shifftiau prawf fesul achos. Mae'n bwysig edrych ai diben y cyfnod prawf yw profi os yw'r unigolyn yn addas ar gyfer ei recriwtio neu i ddarparu gwerth i'r cyflogwr. Os yw'n ofynnol i'r unigolyn weithio shifft gyfan neu



gyfres o sifftiau yna mae'n debygol y bydd hyn o werth i'r cyflogwr ac felly bydd yr ICC yn ddyledus. Yn yr un modd, os na chaiff yr unigolyn ei arsylwi neu ei fod yn cael unrhyw arweiniad yn ystod y cyfnod prawf, yna mae'n fwy tebygol ei fod ef/hi yn darparu gwaith y dylid talu'r ICC amdano. Bydd Cyllid a Thollau EM hefyd yn edrych a oedd hyd y prawf yn gymesur â'r angen i brofi gallu'r unigolyn.

Er enghraifft, gallai fod yn rhesymol gofyn i athro / athrawes fod yn yr ysgol am ddiwrnod cyfan a dysgu gwersi amrywiol sy'n cael eu harsylwi. Mae'n annhebygol o fod yn gymesur i ofyn i ymgeisydd am swydd bar weithio shifft nos Sadwrn gyfan heb oruchwyliaeth. Os gofynnir i unigolyn weithio am gyfnod byr, e.e. os gofynnir i gogydd gynhyrchu bwydydd blasu, yna mae'n annhebygol y bydd yr ICC yn daladwy.

Bydd Cyllid a Thollau EM yn gweithredu lle maen nhw'n credu bod cyflogwr yn cymryd mantais annheg o weithwyr, a'i alw recriwtio. Os ydych chi'n dymuno talu, mae'n hollol dderbyniol talu arian parod i ymgeisydd am yr oriau maen nhw'n gweithio, ac yna rhoi tystysgrif hunan-adrodd iddyn nhw fel bod yr unigolyn yn gyfrifol am unrhyw dreth neu YG a allai fod yn ddyledus.

Mae'n arfer da:

- rhoi gwybod i ymgeisydd am ba mor hir y bydd y cyfnod prawf yn para
- dweud wrth ymgeisydd beth y bydd disgwyl iddo ei wneud ar y shifft brawf
- sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall bod y shifft prawf yn ddi-dâl
- cadw tystiolaeth ysgrifenedig o hyn rhag ofn y bydd archwiliad dilynol gan Gyllid a Thollau EM.

Sylwch unwaith y byddwch yn cynnig swydd i ymgeisydd, rhaid i chi sicrhau ei fod yn derbyn yr ICC unwaith y bydd yn dechrau gweithio i chi. Gwneir cyfrifiad ICC dros gyfnod cyfeirio cyflog, a bydd angen i chi sicrhau nad yw'r gyfradd fesul awr yn disgyn yn is na'r ICC yn y cyfnod cyfeirio tâl cyntaf oherwydd y shifft brawf ddi-dâl y bu'r gweithiwr yn gweithio, neu unrhyw sesiynau sefydlu neu hyfforddi a fynychwyd. Felly yn seiliedig ar hyn, rydym ar hyn o bryd wrthi'n ceisio dod o hyd i fyfyrwyr a aeth drwy'r broses recriwtio yn *Spartacus*, ac mae'n debygol y byddwn yn siarad â'r perchennog am yr honiadau hyn hefyd.

Gwobr UMS

Yn ystod fy llywyddiaeth hyd yn hyn, roeddwn yn ffodus i gael mynd i Lundain i dderbyn ardystiad Undeb Myfyrwyr o Safon a ddyfarnwyd i ni, ynghyd â llond llaw o sefydliadau eraill, mewn cydnabyddiaeth o'n cydymffurfiad â'r canllawiau llym a osodir gan UCM a sefydliadau ardystiedig ar gyfer achrediad UMS. Mae'r Undeb wedi mynd drwy gyfnod o drawsnewid yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae'r wobwr hon yn cydnabod y cynnydd da a wnaed gan staff a myfyrwyr dros yr amser hwnnw. Cafodd ein llwyddiant sylw mewn ychydig o bapurau-newydd, sy'n ardderchog i'n delwedd gyhoeddus fel Undeb.



Recriwtio a Hyfforddiant

Rydym wedi cael nifer o newidiadau staff mewnol dros yr haf; mae gennym reolwr cyfleoedd newydd a chydlynnydd chwaraeon newydd, ar hyn o bryd rydym wrthi'n recriwtio cynghorydd newydd ar gyfer ein gwasanaeth cynghori a byddwn yn cyflogi aelod newydd o staff i weithio yn y dderbynfa a'r adran gyllid. Gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn cryfhau'r tîm sydd gennym yn yr Undeb.

Cafodd staff eu hyfforddi dros yr haf mewn ystod o wahanol feysydd; roedd hyfforddiant gwytnwch yn ogystal â hyfforddiant atal hunanladdiad yn llwyddiannus iawn eleni. Mae staff wedi nodi'r buddion y maent eisoes yn eu profi o ganlyniad i dderbyn yr hyfforddiant hwn, felly mae hyn yn rhywbeth rydym yn debygol o barhau i'w gynnal ar gyfer staff a staff sy'n fyfyrwyr. Cynhaliwyd hyfforddiant Ymddiriedolwyr ar gyfer y Swyddogion Sabothol gyda chydweithwyr o Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant ac Undeb Myfyrwyr Bangor. Roedd cynrychiolwyr o UCM hefyd yn bresennol; diben yr hyfforddiant hwn oedd rhannu arfer gorau ar gyfer Ymddiriedolwyr, a chafodd y sesiwn groeso mawr gan ein tîm swyddogion.



Aeth y tîm swyddogion hefyd drwy hyfforddiant UCM mewn cynadleddau. Mynychwyd cynhadledd Arwain a Newid UCM yn Leeds, yn ogystal â chynhadledd Talwrn UCM Cymru yng Nghaerdydd.

Yn Leeds, roeddem yn gallu rhwydweithio â swyddogion o Undebau ledled y DU; rhannwyd syniadau o arfer gorau, a buom yn trafod materion yr ydym yn eu hwynebu ar ein campysau. Roedd yn bosib nodi'r prif faterion yr oeddem yn eu rhannu â gwahanol Brifysgolion, a dysgwyd technegau ar gyfer cynnal ymgyrchoedd, cyd-drafod â'n sefydliadau a chreu newid. Yng Nghaerdydd, cawsom gyfleoedd gwych i rannu a thrafod pethau gyda'n cyfoedion o sefydliadau eraill yng Nghymru. Llwyddom i nodi mwy o faterion sydd gennym yn gyffredin ar draws ein campysau. Hefyd cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gydag aelodau llywodraeth Cymru ynghylch Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol; cawsom ein hysbysu o'r newidiadau arfaethedig a buom yn trafod y diwygiadau yn fanwl. Cawsom gyfle gwych hefyd i drafod gyda Gweinidog Addysg Cymru rai o'r datblygiadau yn y sector AU ac AB. Yn benodol, rhoddwyd sylw i'r cais Iechyd Meddwl a Llesiant yr ydym yn rhan ohono. Hefyd siaradon ni â hi am ddyfodol Erasmus, gan gadarnhau bod llywodraeth y DU wedi cynnal dadansoddiad cost / budd o raglen Erasmus, ac mae'n debyg iddynt ddarganfod nad oedd y rhaglen yn darparu gwerth am arian i'r DU, ac felly rydym yn ansicr a fydd y llywodraeth yn cynnal rhaglen debyg eu hunain neu os yw Erasmus i gael ei ddileu am byth.

Wythnos y Glas

Mae wythnos y Glas wedi bod yn llwyddiant, yn enwedig o'i chymharu â'r llynedd; mae barn a sylwadau cyffredinol ymhlith corff y myfyrwyr am Ddigwyddiadau'r Glas yn gadarnhaol dros ben. Roedd yn ymddangos bod pobl yn cael hwyl, cawsom adborth gwyb o'r digwyddiadau am ddim a gynhaliwyd gennym, gyda myfyrwyr yn gofyn i ni gynnal y mathau hyn o ddigwyddiadau eto neu eu cynnal yn rheolaidd. Mae hyn yn beth da, gan ei fod yn sefydlu perthynas gadarnhaol rhwng corff y myfyrwyr a'r Undeb, ond mae hefyd yn golygu bod barn gyntaf pobl am y Brifysgol yn gadarnhaol, sy'n beth da.

Hoffem estyn ein diolch i staff y Bar yn yr Undeb am fod yn rhagorol wrth ein helpu i redeg wythnos y glas, gan helpu i drefnu'r brif ystafell ar gyfer y ffair ac ar gyfer digwyddiadau, ac am gael gafael ar wobrau ar gyfer rhai o'r digwyddiadau gyda'r nos. Hoffwn hefyd ddiolch i John Glasby a gweddill y gwasanaethau masnachol am helpu i drefnu a chynnal digwyddiad cerddoriaeth fyw a gafodd groeso mawr gan fyfyrwyr. Gobeithio y gallwn gynnal mwy o ddigwyddiadau myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn gyda chymorth y Bar.

Yn y cwis mawr, ar ôl i ni gyflwyno'r gwobrau a daeth y cwis i ben, gofynnwyd i bawb godi eu dwylo os oedden nhw am i ni gynnal cwis eto ymhen mis. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol dros ben gyda bron pawb yn codi eu dwylo. Daeth cymaint o bobl i'r cwis nes bod y brif ystafell, y bar cwtsh a'r picture-house yn llawn; yn wir roedd holl adeilad yr Undeb yn llawn dop o fyfyrwyr.





Strategaeth yn yr Undeb

Yn ystod y flwyddyn academiaidd hon, bydd Undeb y Myfyrwyr yn adolygu ac yn diweddarau ein strategaeth. Byddwn yn cwrdd i ffwrdd er mwyn trafod strategaeth gyda staff, swyddogion sabothol a chynrychiolwyr myfyrwyr a byddwn yn ffurfio strategaeth newydd. Yna byddwn yn ymgynghori â myfyrwyr ar ein strategaeth cyn ei gweithredu. Bydd Cat Sullivan o Mira Gold yn ein helpu i lunio ein strategaeth; mae ganddi hi gyfoeth o brofiad a gwybodaeth ac roedd yn arfer gweithio yn UCM y DU.

Aelodaeth ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau

Mae aelodaeth a chofrestriad ar gyfer clybiau a chymdeithasau yn uwch na'r llynedd; mae'n bleser gennym gyhoeddi bod gennym dros 1,000 o aelodau gweithredol o dîm Aber ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan fyfyrwyr a chymdeithasau am ffair yr UM eleni o'i chymharu â'r llynedd. Rydym yn ystyried sefydlu grŵp myfyrwyr *Extinction Rebellion* i ddod â'r cymdeithasau amgylcheddol ac eco sydd eisoes yn bodoli ynghyd. Y gobaith yw y bydd y grŵp hwn yn trefnu digwyddiadau ac yn hysbysu myfyrwyr am ffyrdd y gallant gymryd rhan mewn gweithredu uniongyrchol di-drais neu drwy lobïo i ddylanwadu ar newid.



Yr Undeb a'r ACF

Roedd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr (ACF) yn gryf o safbwynt y Brifysgol, ond yn achos Undeb eleni, roedd yn anodd i ni gadw i fyny ag Undeb Myfirwyr Bangor, oedd wedi codi nifer sylweddol o leoedd yng nghanlyniadau'r ACF o'i gymharu â'r llynedd. Isod yn Ffigur 1 mae tabl sy'n dangos hanes ariannol Undeb Myfirwyr Bangor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf hyd at 2018 (Ffynhonnell: Y Comisiwn Elusennau). Ers hynny mae Undeb y Myfirwyr ym Mangor wedi newid ei strwythur cyfreithiol ac wedi ailgofrestru â'r Comisiwn Elusennau ar gyfer 2019.

Financial year end (FYE)	Income	Spending	Accounts received	Annual Return received	View
31 Jul 2018	£1,333,892*	£1,386,263*	09 Apr 2019	09 Apr 2019	Accounts
31 Jul 2017	£1,297,876	£1,325,981	24 Apr 2018	24 Apr 2018	Accounts
31 Jul 2016	£1,204,753	£1,251,629	12 May 2017	12 May 2017	Accounts
31 Jul 2015	£1,097,786	£1,068,913	20 Apr 2016	20 Apr 2016	Accounts
31 Jul 2014	£1,070,995	£1,047,493	01 May 2015	01 May 2015	Accounts

* Consolidated accounts

Ffigur 1: Yn dangos hanes ariannol Undeb Myfirwyr Bangor rhwng 2014 a 2018.

Ffynhonnell: Y Comisiwn Elusennau [Ar-lein] (Cyrchwyd 30/09/2019)

Mae'r Tabl yn Ffigur 1 yn dangos incwm a gwariant; mae'r naill a'r llall wedi cynyddu'n gyson ym Mangor flwyddyn ar ôl blwyddyn wrth i amser fynd heibio. Mewn cymhariaeth, mae ein Hundeb Myfirwyr ni yma yn Aberystwyth wedi gweld dirywiad cyson mewn incwm a gwariant dros yr un cyfnod, fel sydd i'w weld yn Ffigur 2. Rwy'n deall bod nifer gymhleth o ffactorau ac elfennau wedi cyfrannu at y canlyniad hwn, ac nid yw hyn yn esbonio'n llawn y gwahaniaeth rhwng ein canlyniadau yn yr ACF. Fodd bynnag, mae'n dangos ein bod ni fel Undeb wedi bod drwy newid sylweddol, ac felly mae'n wych ein bod ni'n dal i allu cystadlu a chael ein cydnabod am yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni.



1150576 - ABERYSTWYTH UNIVERSITY STUDENTS' UNION

DUE DOCUMENTS
RECEIVED



Financial history

Compliance history

Financial summary

Financial year end (FYE)	Income	Spending	Accounts received	Annual Return received	View
30 Jun 2018	£1,268,469*	£1,173,456*	03 Apr 2019	20 May 2019 (20 days late)	Accounts
30 Jun 2017	£1,823,394*	£1,380,611*	26 Apr 2018	26 Apr 2018	Accounts
30 Jun 2016	£2,530,714*	£2,708,378*	23 Mar 2017	23 Mar 2017	Accounts
30 Jun 2015	£2,738,871*	£2,856,901*	22 Feb 2016	24 Feb 2016	Accounts
30 Jun 2014	£2,781,599*	£2,794,657*	22 Feb 2016 (298 days late)	24 Feb 2016 (300 days late)	Accounts

* Consolidated accounts

Ffigur 2: Yn dangos hanes ariannol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth rhwng 2014 a 2018.

Ffynhonnell: Y Comisiwn Elusennau [Ar-lein] (Cyrchwyd 30/09/2019)

Yn ddelfrydol, o'r flwyddyn hon ymlaen, hoffem weld ein hincwm a'n gwariant yn cynyddu'n gyson o leiaf yn unol â chwyddiant os nad ychydig yn fwy. Mae hyn yn debygol o'n helpu i barhau i wneud y gwaith gwych a wnawn yma yn yr undeb sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol. Dywedodd dilyswyr UMS a arolygodd ein hundeb yn y chwarter diwethaf fod gennym Undeb a thîm i ymfalchïo ynddynt a'n bod wedi rhagori ar eu disgwyliadau yn ystod eu hamser yn Aber. Rwy'n credu y dylai undeb o'r ansawdd hwn dderbyn cyllid priodol oherwydd gellir cyflawni cymaint mwy i'n myfyrwyr.

Diweddariad Lles - Lydia Chilvers

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf fel Swyddog Llesiant, rwyf wedi bod yn gweithio ar ein hymgyrch 'Dim Esgusodion' a gafodd ei chreu gan fy rhagflaenydd Molly, sy'n addewid i weithio gyda'n gilydd i addysgu ein gilydd, a herio achosion o fwlio, aflonyddu a thrais, gan greu diwylliant Dim Goddefgarwch. Rwyf wedi bod yn gweithio ar sesiwn hyfforddi 'Dim Esgusodion' yr wyf am ei chynnal gyda phwyllgorau clybiau a chymdeithasau, i'w haddysgu ar sut i ddynodi gwahanol fathau o ymddygiad annerbyniol a sut i helpu aelodau eu clwb / cymdeithas, os oes angen hynny. Ar ddiwedd y sesiwn, byddwn yn gwahodd y pwyllgor i arwyddo'r addewid 'Dim Esgusodion' ar ran y clwb / cymdeithas. Hefyd, bydd Cymorth i Fenywod Cymru (CFC) yn cynnal dwy sesiwn hyfforddi gwylidydd gweithredol ym mis Tachwedd, ac mae croeso i unrhyw fyfyrwr eu mynychu. Yn y flwyddyn newydd, rwy'n gobeithio gwahodd cynrychiolwyr o dafarndai / clybiau yn y dref i ddod i mewn ar gyfer hyfforddiant gwylidydd gweithredol CFC, yn ogystal â rhywfaint o hyfforddiant 'Dim Esgusodion'. Y gobaith yw y byddaf yn gallu cael amrywiaeth eang o leoliadau o'r dref i arwyddo'r addewid a gwella diogelwch ein myfyrwr ar nosweithiau allan.

Yn ogystal â Dim Esgusodion, rwyf hefyd wedi bod yn gweithio ar rai blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd. Rwy'n gobeithio sefydlu oergell gymunedol yn yr UM eleni, gyda chymorth Gwarged Bwyd Aber. Bydd hwn yn lle y bydd bwyd dros ben yn cael ei gadw, sydd am ddim i unrhyw un sydd ei angen. Bydd hyn yn helpu i leihau gwastraff bwyd ar y campws a hefyd, gobeithio, yn helpu unrhyw fyfyrwr a allai fod yn brin o arian. Hefyd, mae Dhan a minnau wedi bod mewn cysylltiad ag *Extinction Rebellion* Aberystwyth ac rydym yn gobeithio bod â grŵp ieuenctid XR yn y brifysgol cyn bo hir. Bydd XR hefyd yn ein helpu i gael y brifysgol i ymrwymo i ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil. Yn olaf, rwyf wedi bod yn rhoi sylw i system reoli gwastraff y brifysgol o ran y pecynnu y gellir ei gompostio a ddefnyddir. Gan nad oes gan y brifysgol finiau compost ar y campws, mae hyn yn golygu nad oes lle delfrydol i'r pecynnu y gellir ei gompostio gael ei waredu. Ar hyn o bryd rwy'n ystyried a fyddai cael rhai biniau compost ar y campws yn opsiwn ymarferol.

Diweddariad Cyfleoedd - Wojtek Salski

Hyd yma, fel y Swyddog Cyfleoedd, cefais gadarnhad ynghylch "Polisi Dydd Mercher BUCS", a fydd, gobeithio, yn gweithio'n dda yn y flwyddyn academaidd hon. Rwyf hefyd wedi cynllunio digwyddiad newydd gan y Swyddog Cyfleoedd o'r enw "Her Aber" ac wedi llwyddo i argyhoeddi tri-ar-ddeg o fyfyrwr i gychwyn eu cymdeithasau a'u clybiau eu hunain, a thrwy hynny godi lefel ymgysylltiad o fewn yr UM.



Diweddariad Materion Academaidd - Chloe Ann Wilkinson-Silk

Ers mis Gorffennaf, fel Swyddog Materion Academaidd rwyf wedi gweithio'n bennaf tuag at ddau brif nod: lobïo dros amddiffyn ERASMUS+ ar ôl Brexit, a datblygu gwell dealltwriaeth ymhlith staff a myfyrwyr am werthoedd y system gynrychiolaeth academaidd. Isod mae manylion y cynnydd rwyf wedi'i wneud yn y meysydd hyn.

Cynrychiolwyr Academaidd a Chyfadran

Mewn cydweithrediad â'r Cydlynnydd Academaidd a Gwirfoddolwyr, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cysoni llawer o brosesau ar lefel cynrychiolwyr adran a chyfadran. I wneud hyn, rydym wedi:

- Lluoio datganiad cenhadaeth allweddol newydd ar gyfer rôl cynrychiolydd, i'w ddefnyddio mewn hyfforddiant cynrychiolwyr ac ar bob cyfathrebiad gan yr UM gyda'r nod o egluro diben y system gynrychiolaeth
- Dosbarthu 'disgwyliaid cynrychiolwyr' i staff a myfyrwyr er mwyn egluro rôl cynrychiolydd cyfadran i bob parti perthnasol
- Wedi creu templed safonol PYSM i'w ddefnyddio ar draws yr holl adrannau academaidd
- Drafftio 'cylich gorchwyl' diwygiedig ar gyfer PYSM i sicrhau bod yr unigolion perthnasol i gyd yn bresennol ar draws adrannau academaidd ac yn cael eu dal i gyfrif am wneud hynny (ar y gweill)
- Trefnu bod adolygiad o'r PYSM yn eitem sefydlog ym Mhwyllgor Materion Academaidd pob Cyfadran (PMAC)
- Trefnu bod busnes Cynrychiolwyr Cyfadran yn eitem sefydlog Mhwyllgor Materion Academaidd pob Cyfadran (PMAC)
- Trefnu cyfarfodydd un-i-un gyda Chynrychiolwyr Cyfadran cyn eu PMAC i adolygu cofnodion PYSM a dynodi materion allweddol
- Drafftio templed 'crynodeb allweddol PYSM' i'w gyflwyno i PMAC gan gynrychiolwyr y Gyfadran

Y nod wrth gysoni strwythurau o'r fath yw sicrhau y gellir cofnodi unrhyw adborth sy'n cael ei gasglu a'i symud ymlaen gan ein cynrychiolwyr academaidd yn hawdd, a bod unrhyw 'fuddugoliaethau' ar ran myfyrwyr yn gallu cael eu dathlu. Hoffem gael gwell dealltwriaeth o lawer o'r mewnbwn a wneir gan ein cynrychiolwyr ar draws y brifysgol eleni, fel y gallwn weiddi am eu gwaith da a chynyddu eu gwerth yng ngolwg Prifysgol Aberystwyth yn ei chyfanrwydd.

ERASMUS+ ar ôl Brexit

Yn 2017 pasiodd myfyrwyr bolisi UM yn gorchymyn y Swyddog Materion Academaidd i lobïo ar bob lefel i amddiffyn ERASMUS+ ar ôl Brexit. Eleni, rwyf wedi ei gwneud yn flaenoriaeth cynnal ymgyrch weladwy ac eang yn annog myfyrwyr i arwain yn weithredol wrth gyflwyno'r neges hon. I wneud hyn rwyf wedi lansio'r 'Prosiect Blwch Post Porffor', sef ymgyrch lobïo sy'n annog staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth i lofnodi ac anfon cardiau post at ASau ledled y DU yn gofyn i ERASMUS+ gael ei ystyried ym mhob trafodaeth Brexit ar yr adeg dyngedfennol hon. Ar gyfer yr ymgyrch hon rwyf wedi:

- Drafftio a dylunio cardiau post gyda'n neges i'w hanfon at ASau ledled y wlad
- Creu templedi adnoddau ar gyfer yr ymgyrch y gellir eu golygu, i'w hanfon at brifysgolion ledled y DU sydd hefyd am gymryd rhan
- Creu tudalen ddwyieithog ar gyfer yr ymgyrch ar y we yn amlinellu'n glir yr effaith bosibl y gallai Brexit ei chael ar ERASMUS+ a sut y gall myfyrwyr gyfranogi yn yr ymgyrch
- Ysgrifennu 'llythyr at fy AS' i'w uwchlwytho i'r wefan cyn anfon cardiau post i Dŷ'r Cyffredin
- Creu ffurflen gyflwyno wufoo wedi'i hymgorffori yn ein gwefan sy'n caniatáu i fyfyrwyr, staff a chyn-fyfyrwyr gyflwyno tystebau agored neu anhysbys yn amlinellu eu profiadau cadarnhaol o astudio rhyngwladol
- Cydweithio â gwneuthurwr ffilmiau dogfen i greu cyfres fer sy'n mynd i'r afael â phwysigrwydd ERASMUS+ i sefydliadau Cymru ac effaith bosibl colli mynediad i'r rhaglen
- Cydweithio â'r swyddfa ryngwladol i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar symudedd rhyngwladol a rhannu adnoddau ar gyfer strwythurau cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol drwy'r ymgyrch
- Cydweithio â Rhwydwaith Myfyrwyr ERASMUS+ Aberystwyth i redeg stondinau ymgyrchu, rhannu cysylltiadau a gwybodaeth berthnasol ac annog myfyrwyr ERASMUS+ ledled y byd i gymryd rhan yn yr ymgyrch
- Cysylltu â'r AS sy'n cynrychioli Ceredigion, Ben Lake, i drefnu trafodaeth bwrdd crwn agored yn ystod wythnos 14^{eg}, fydd yn gyfle i fyfyrwyr ofyn cwestiynau a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar symudedd rhyngwladol a sut mae'n cael ei effeithio ar hyn o bryd

Dros yr haf, rwyf hefyd wedi mynychu amryw o sesiynau hyfforddi gyda fy nghydswyddogion, wedi mynychu llawer o gyfarfodydd gan ddod i adnabod fy nghydweithwyr newydd yn y brifysgol. Rwyf hefyd wedi dechrau gweithio tuag at gyflawni fy nwy flaenoriaeth arall; adolygu achrediad modiwlau a gwella mynediad oddi ar y campws at adnoddau'r brifysgol.



UMCA - Tomos Ifan

Cynhaliodd UMCA gyfres o ddigwyddiadau ar gyfer wythnos y glas, gan oresgyn llawer o rwystrau ynglŷn â'n digwyddiadau i sicrhau bod myfyrwyr yn dal i allu mwynhau a chwrrd â phobl newydd drwy gyfrwng Cymraeg, sy'n bwysig iawn i fyfyrwyr newydd sy'n cyrraedd Aberystwyth. Un o'n digwyddiadau mwyaf llwyddiannus oedd band Cymraeg yn perfformio yn y Llew Du, a ddenodd dorf fawr o siaradwyr Cymraeg o bob rhan o Gymru, gan gynnwys pobl leol (sydd yn y pen draw yn cyfrannu at berthynas well rhwng y dref a'r brifysgol).

Fel llywydd UMCA, rwy'n eistedd ar fwrdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn Aberystwyth. Ym mis Hydref mae UMCA yn ymuno ag Abertawe i arwain a chyflwyno papur ar fodiwlau Cymraeg i'r Coleg, mewn ymgais i gynyddu nifer y darlithoedd a gynhelir yn Gymraeg.

Yn olaf, eleni bydd UMCA ac Aberystwyth yn cynnal y 'Ddawns Ryngol' flynyddol ac yn croesawu'r 'Eisteddfod Ryngol' sy'n digwydd unwaith bob pum mlynedd yn unig. Rwy'n gweithio'n galed tuag at sicrhau bod y ddau ddigwyddiad yn rhedeg yn esmwyth ac yn llwyddiannus er mwyn cynrychioli Prifysgol Aberystwyth ar ei gorau.